Cofnodion cyfarfod 13 Mehefin 2023 a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa am 7 yn yr hwyr		
PRESENNOL		
Daniel Williams	Eifion Williams	
Llŷr Evans	Iwan Huws	
1.0	**GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU**	
	Agorwyd y Cyfarfod yn ffurfiol gan Y Cynghorydd Iwan Huws. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Cynog Prys, Eleri Wyn Thomas, Nel Huws, Dafydd Huws, Elenid Glyn a Meleri Jones, Emyr Gareth.	
1.1	Ni chafwyd cyfraniad oddi wrth y cyhoedd.	
1.2	Llywodraeth Cymru – arolwg ar gyfeillio – y Clerc i ymateb ar ran y Cyngor.	**CLERC**
1.3	Rheolau Sefydlog 2023 – y mater i ddod gerbron y Cyngor mis nesaf wedi'r aelodau gael amser i ddadansoddi'r cynnwys a hefyd i'r Cynghorydd Daniel Williams a'r Clerc allu gymharu'r ddogfen gyda Llawlyfr y Cyngor.	**CLERC DW**
1.4	Hyfforddiant – rhest o gyrsiau gan unllais cymru i'w anfon at yr aelodau unwaith yn rhagor er mwyn iddynt ddewis pa gyrsiau y maent yn dymuno fynychu. Y Cynghorydd Daniel Williams a'r Clerc i wneud matrix.	**CLERC DW**
1.5	Ebost Gwen Thomas – y Cyngor yn cydnabod yr ebost. Roedd nifer o'r eitemau a restrir ar yr ebost wedi eu cydnabod gan y Cyngor. Penderfynwyd byddai'r Cyngor yn hoffi gwahodd Ms Thomas atynt at eu stondin ar Dydd Sadwrn diwrnod Carnifal Gwyl y Felin i drafod matrion eraill sydd wedi eu codi. Y Clerc i anfon Gwahoddiad i Ms Thomas.	**CLERC**
2.0	**DATGAN DIDDORDEB**	
	Dim	
3.0	**CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL BLAENOROL**	
3.1	Cyflwynwyd gwariant ac adroddiad ariannol y Cyngor am fis Mai 2023 gan y Clerc ac fe'u derbyniwyd.	**CLERC**
4.0	**CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL A MATERION YN CODI**	
4.1	Cadarnhawyd Cofnodion mis Cyfarfod Blynyddol a Chyfarfod mis Mai yn gywir. 2023.	**CLERC**
4.2	Wi-Fi – dim ymateb hyd yma, roedd y Cyngor yn gobeithio y byddai rhywfath o ymateb wedi bod gan menter Mon hyd yma; credir bod threfi yn cael eu targedu fwy na phentrefi. Y Clerc i drio cysylltu eto a Menter Mon.	
4.3	Llwybr 17 a Llwybr Cerrig yr afon – dim ymateb wedi bod oddi wrth y Swyddog Llwybrau Cyhoeddus Gwynedd a dim pris heb ei dderbyn. Y Clerc i anfon at y Swyddog eto. Asiant Cefnffyrdd wedi ymateb ynglŷn â'r gwaith cynnal a chadw a'r llwybrau sydd yn croesi'r ffordd osgoi; mae'r gwaith yn cael ei weithredu ar eu rhan gan Gwynedd, sydd yn gwneud y gwaith pan mae amser yn caniatáu pan nad oes gwaith wedi ei flaenoriaethu. Mae'r gwaith yn cynnwys	

	gwaith mwy cynhwysfawr na chynnal yn unig, e.e. lledu ac yn y blaen.	
4.4	Cyfrifiad diffibrilwyr – angen sicrhau cael gwybodaeth oddi wrth yr ysgol – y Cynghorydd Iwan Huws i sicrhau hyn yn nghyfarfod nesaf o'r llywodraethwyr.	**CLERC ASEDAU**
4.5	Llifogydd Afon Heulyn – y Clerc anfon symud ar y mater hwn.	**CLERC**
4.6	Datblygiad Penybryn – mae Swyddog Stadau Cyngor Gwynedd wedi cysylltu a bydd yn cynnal ymweliad safle ym Mhenybryn. Bydd yn cysylltu gyda'r cynghorydd Daniel Williams wedi hynny. Cyflwynwyd wybodaeth hefyd ganddo i fater arall lle mae "Adverse Possession Claim" wedi ei wneud. Mae Cyngor Gwynedd wedi ei wrthwynebu.	
4.7	Materion Priffyrdd, Caeau BT Penceunant a gwli ar Ffordd Lan y Môr – Swyddog priffyrdd yn dweud os oes gwaith brys ei angen bydd yn cael ei raglenu.	
4.8	Ni chafwyd ymgyrch hel sbwriel gan bod tyfiant y gwair wedi bod yn aruthrol a byddai yn anodd dod o hyd i'r sbwriel ar ymylon y lonydd. Gobeithir cynnal ymgyrch yn nes am y gaeaf.	
4.9	Cynllun Rheoli Traffig – mae ymateb wedi dod oddi wrth Traffig Gwynedd yn datgan byddent yn fodlon iawn ddod i gyfarfod gyda'r partneriaethau i gyd i ystyried datrys y sefyllfa. Cafwyd ymateb gan Asiantaeth Cefnffyrdd hefyd a gyda sgwrs ffon a'r Clerc byddent hwythau yn fodlon i drafod syniadau mewn cyfarfod. Disgwylir ymateb yr heddlu cyn symud ymlaen i drefnu cyfarfod.	
4.10	Mae cais wedi ei dderbyn i'r toiledau cyhoeddus fod ar gael yn hwyrach na'r arfer dros cyfnod Gŵyl y Felin. Y Clerc wedi cysylltu a Chyngor Gwynedd ond nid oedd wedi derbyn ymateb ar hyn o bryd. Dywedodd bod sawl cyfnod wedi bod lle nad oedd y toiledau wedi cael eu cau dros y nos. Y Clerc i barhau i drio cael ateb cadarnhaol i'r cais. Roedd yr aelod presennol yn awyddus i ystyried cymryd cyfrifoldeb am y toiledu.	
5.0	**CEISIADAU CYNLLUNIO**	
5.1	Rhif Cais : C23/0379/20/CC Lleoliad: Felinheli Marina, Felinheli, LL56 4JN Bwriad : Tocio ywen sy'n destun Gorchymyn Gwarchod Coed. **DIM GWRTHWYNEBIAD**	
6.0	**CYLLID, CYFLOGAETH, PHOLISÏAU A GWEFAN**	
6.1	Gwaith ar y wefan yn parhau. Bydd angen gweithio tuag at gael polisi bioamrywiaeth yn fuan.	
7.0	**ASEDAU**	
	Mae gwaith cynnal ar gytundeb o 3 mis i'w wneud ar safle Moreia dros yr haf gan y Contractwr, bydd ystyriaeth yn cael ei wneud nes ymlaen ar gyfer cynnal y safle yn y gaeaf. Mae modd i aelodau'r cyhoedd cyfranau planhigion priodol i'r safle abydd y contractwr yn eu plannu. Efallai bydd modd hefyd i osod coeden Nadolig ar y safle – hyn i'w ystyried nes ymlaen.	
8.0	**LLWYBRAU CYHOEDDUS, LÔN LAS A PHRIFFYRDD**	

9.0	**NEUADD GOFFA A CHLOC**	
9.1	Cafwyd adroddiad llafar gan y Cynghorydd Daniel Williams. Fel dywedwyd mis diweddaf mae gwaith angenrheidiol i wneud ar y llawr, a chan bod angen oddeutu tridiau i wneud y gwaith mae'r Clerc yn edrych pa bryd fydd y neuadd i'w gael am dridau heb ddefnydd. Disgwylir bydd llechi o bryd i'w gilydd yn syrthio oddi ar y to oherwydd oed yr holion sydd yn eu dal. Er mwyn diogelwch gellir rhoi rhyw fath o strwythur ar hyd yr ardal lle mae'r landeri er mwyn dal y llechi fel maent yn syrthio. Y Cynghorydd Daniel Williams i edrych am gostau gan gontractwyr i osod y strwythur. Gobeithir trefnu Cyfarfod o Bwyllgor y Neuadd yn fuan er mwyn edrych ar ffioedd ac yn y blaen.	**DW**
9.2	Cloc – gobeithir gwneud trefniadau gyda cwmni proffesiynol i edrych ar y tamprwydd. Mae gwaith clirio tu fewn y cloc, gobeithir trefnu amser i lanhau tipyn ar y cloc.	
10.0	**CYNLLUN LLIFOGYDD CYMUNEDOL**	
	Dim i'w adrodd	
11.0	**UNRHYW FATER ARALL**	
11.1	Daeth syniad oddi wrth aelod o'r cyhoeddi osod campfa awyr iach o fewn y pentre. Y Cynghorydd Eifion Williams i wneud ymholiadau ac i edrych lle byddai modd i godi campfa agored. Roedd syniad wedi bod eisioes byddai modd rhoi offer mewn ambell man lle roedd cerddwyr a rhedwyr yn ei ddefnyddio. Cynghorydd Eifion Williams i adrodd yn ol mis nesaf.	
11.2	Bydd y Cyngor gyda stondin yn Gŵyl y Felin i groesawu'r cyhoedd ac i edrych os bydd modd denu dau aelod newydd i'r Cyngor gan bod dwy sedd wag.	
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 08:30	
Llofnod:		**Dyddiad:** **13/09/223**